



# Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

**Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 3 Ionawr 2017 am 6.00yh  
yn yr Ystafell Gynhadledd, 36 Pendre, Aberteifi.**

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 3 January 2017 at 6.00pm  
at the Conference Room, 36 Pendre, Cardigan.

**Presennol/Present—Y Cynghorwyr/Councillors Clive Davies (yn y gadair/in the chair),  
John Adams-Lewis, Dai Brabrook, Ken Edwards, Graham Evans, Gwynfi Jenkins, Richard Jones,  
Catrin Miles, Jane Roche, Akira Shimazaki.**

## 1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

The Chair's Welcome and Personal Matters.

**Dymunodd y Maer, y Cyng. Clive Davies, Flwyddyn Newydd Dda i bawb yn y cyfarfod. Cyfeiriodd at holl ddigwyddiadau'r Nadolig a gafwyd yn yr ardal, yn enwedig Gorymdaith y Lanternau a'r tân gwyllt ar gei'r Tywysog Siarl. Diolchodd i gynghorwyr a holl aelodau'r cyhoedd am eu cefnogaeth i hwyl y "Siwmpwr" – roedd y sylw a gafwyd gan y cyfryngau yn anhygoel gydag Elin Jones AC hyd yn oed yn cyhoeddi yn y Senedd am y digwyddiad unigryw hwn a drefnwyd i godi arian at elusen haeddiannol Achub y Plant. Dymunodd y Maer wellhad buan i Mr Emyr Jones, tad y Dirprwy Faer, yn dilyn ei driniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.**

The Mayor, Cllr Clive Davies, welcomed everyone to the meeting and wished all a Happy New Year. He referred to the many successful Christmas events which had been held in the area, and mentioned especially the innovative lantern parade culminating with the firework display held at Prince Charles quay. He thanked councillors and members of the public for their support in ensuring the "Jumper" day was enjoyed by all – the media coverage, including an announcement at the Senedd in Cardiff by Elin Jones AM, benefited greatly the worthy Save the Children charity. The Mayor wished the Deputy Mayor's father, Mr Emyr Jones, a complete recovery from his recent hospital treatment.

## 2. Ymddiheuriadau / Apologies: Y Cyng. / Cllrs Melfydd George (*anhwyldeb/unwell*), Mark Cole (*anhwyldeb/unwell*)

## 3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Pheronol gan Gynghorwyr.

Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis
---------------------------------

Yr holl faterion cynllunio / All planning matters.
--

## 4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 6 Rhagfyr.

Confirmation of Minutes of 6 December Council Meeting.

**Cynigiwyd gan y Cyng. Dai Brabrook ac eiliwyd gan y Cyng. Jane Roche bod y cofnodion yn gywir.**

Cllr Dai Brabrook proposed that the minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr. Jane Roche.

**Cynigiwyd gan y Cyng. Dai Brabrook ac eiliwyd gan y Cyng. Graham Evans bod y cofnodion "mewn pwyllgor" yn gywir.**

Cllr Dai Brabrook proposed that the "in committee" minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr. Graham Evans.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.**

**Tud. 1185, eitem 8: Mae cyfrif MD Recycling (£2,652.96) am waith ar Gae Chwarae Pentop wedi ei gynnwys yng nghyfrif Teifi Installations.**

**Tud. 1187, eitem 9(c)(i): Bydd staff gweinyddol y cyngor sir yn swyddfeydd Canolfan Teifi yn dechrau ar eu gwaith yn awr ar y 4ydd o Ionawr nid y 3ydd.**

**Tud. 1190, eitem 11: Caiff materion costau parcio'r dref eu trafod gydag Elin Jones AC pan ddaw ar ei hymweliad i Aberteifi wrth law.**

**Tud. 1191, eitem 12(b): Bydd y Cyng. Adams-Lewis yn ailarchwilio cyflwr y palmant yn Rhos-y-dre. Awgrymwyd bod cais am fin sbwriel i'w osod ar Rodfa'r Felin yn cael ei wneud i'r cyngor sir.**

Page 1185, item 8: The bill from MD Recycling for £2,652.96 for work at the Pentop Play Area has been included in the bill submitted by Teifi Installations.

Page 1186, item 9(c)(i): The county council administrative staff will now commence their work at the offices in Canolfan Teifi on the 4<sup>th</sup> of January not the 3<sup>rd</sup> as previously noted.

Page 1190, item 11: The issue of parking costs in the town will be discussed with Elin Jones AM during her imminent visit to Cardigan.

Page 1191, item 12(b): Cllr Adams-Lewis will re-inspect the condition of the pavement at Rhos-y-dre. It was recommended that a request be made to the county council for a litter bin to be placed at Rhodfa'r Felin.

**6. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.**

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

**Dosbarthwyd dyddiadur y Maer i'r holl aelodau yn y cyfarfod.**

The Mayor's diary was distributed to all members at the meeting.

**7. Cynllunio / Planning:**

<i>Rhif y Cais / Application No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
A161145	Cardigan Rugby Club	Extending roof to create store in roof space and associated work	<i>Mae'r Cyngor yn cefnogi'r cais.</i> The council supports the application.

**Trosglwyddwyd dogfenni'r cais uchod at swyddogion Pwyllgor Ymgynghorol Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed. Nid oedd ganddynt unrhyw wrthwynebiad.**

Documents of the above application have been scrutinised by officers of the King George 5<sup>th</sup> Playing Field Advisory Committee who reported back with no objections.

**8(a). Biliau i'w talu / Bills to be paid.**

<i>Dyddiad / Date</i>	<i>Disgrifiad / Description</i>	<i>Côd / Code</i>	<i>Rhify Siec / Cheque No.</i>	<i>Swm (TAW) / Sum (VAT)</i>
31/12/16	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor / Rent of Council Office (Rhagfyr / December).</i> <i>Rhent yr Ystafell Gynhadledd / Rent of Conference Room (6 Rhagfyr/December)</i> <i>Band Lydan (Ionawr) / Broadband (January)</i>	A9 A9 A20	D/D 4345	£250.00 (0.00) £25.00 (0.00) £20.00 (0.00)
31/12/16	L. W. Jones: <i>Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Rhag./Dec.)</i>	A3	4346	£748.90 (0.00)
30/11/16	CCF: <i>Deunydd i gywiro cyfarpar y maes chwarae.</i> Material for repairing playing field equipment.	C3	4347	£33.68 (5.39)
15/12/16	Trywydd: <i>Cyfieithu ar y pryd / Simultaneous translation (6/12/16)</i>	A18	4348	£140.40 (23.40)
6/12/16	Morgan & Davies (Valuers): <i>Adroddiad / Report – Valuation on Cardigan Bowling Club</i>	A22	4349	£240.00 (40.00)
7/12/16	Telemat: <i>Cynnal ebost ac ailgofrestru enw parth.</i> Maintenance of email and registration	A20	4350	£56.70 (9.45)
6/12/16	Insignia Swallows: <i>Cyfarpar swyddfa / Stationery</i>	A7	4351	£144.74 (2.46)

6/12/16	BT: <i>Ffôn</i> / Telephone	A20	4352	£126.06 (14.34)
4/11/16	J. J. Williams & Son: <i>Ail-leoli blychau blodau</i> / Relocating flower pots.	C1	4353	£78.00 (13.00)
18/12/16	<i>Argraffwyr</i> E. L. Jones Printers: <i>Tafleenni a phosteri Sul y Cadoediad.</i> Hymn Sheets and notices (Remembrance Service) <i>Cardiau Nadolig</i> / Christmas Cards (£84 to be reimbursed for Mayor's personal cards) <i>Papur swyddfa</i> / Stationery	A23 A7 A7	4354	£138.80 (7.80) £168.00 (28.00) £43.20 (7.20)
31/12/16	<i>Bachan Deche</i> / Handyperson ( <i>Rhagfyr</i> / December)	A19	4355	£178.20 (29.70)
31/12/16	St John Ambulance Brigade: Cardigan Division: <i>Cytundeb i dalu am y gwasanaeth Noson Gorymdaith y Lanternau Nadolig.</i> Agreement to contribute £50 for their services at the Christmas Parade of Lanterns. (See page 1190, minute 11, dated 6/12/16.)	D3	4356	£50.00 (0.00)
29/12/16	<i>Swyddfa Archwilio Cymru</i> / Wales Audit Office: <i>Archwiliad o gyfrifon</i> 2015-16 Audit of accounts.	A13	4357	£231.00 (0.00)
17/11/16	Hugh James ( <i>Cyfreithwyr</i> /Solicitors): <i>Gwaith proffesiynol ar brydles Cae Chwarae Pentop.</i> Professional services on Pentop Play Area lease	C12		£1,733.32 (283.72)

**Cynigiodd y Cyng. Ken Edwards bod y biliau uchod yn cael eu talu ag eithrio bil Hugh James hyd nes i'r Cyng. Catrin Miles ei graffu; eiliwyd gan y Cyng. Graham Evans.**

Cllr Ken Edwards proposed that the above bills, with the exception of Huw James (which warrants further scrutiny by Cllr Catrin Miles) be paid; this was seconded by Cllr Graham Evans.

***Derbyniadau/Receipts:***

9/11/16	<i>Llog y Banc</i> / Bank interest	£2.22
7/12/16	<i>Trosglwyddiad</i> / Transfer of Pentop funds from NatWest A/c 21560528	£8,942.88
20/12/16	<i>Clwb Bowls Aberteifi</i> / Cardigan Bowling Club (lease)	£400.00

**(b) Adroddiad Ariannol hyd at 31 Rhagfyr / Financial Report to 31 December 2016.**

**Cynigiodd y Cyng. John Adams-Lewis bod y Cyngor yn derbyn yr adroddiad; eiliwyd gan y Cyng. Dai Brabrook.**

Cllr John Adams-Lewis proposed that the report be approved by council; seconded by Cllr Dai Brabrook.

**9. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.**

**(a) Y Cyng. Catrin Miles:**

- (i) **Llwybr Bron-y-dre: Gwneir ymholiadau gyda'r cyngor sir i osod canllaw i ddiogelu defnyddwyr y llwybr.**
- (ii) **Bu'r Cynghorwyr Miles ac Adams-Lewis mewn cyfarfod gyda Chomisiynydd y Gymraeg yn ddiweddar. Codwyd mater arwyddion Cymraeg ar siopau ac adeiladau masnachol; pwysleisiwyd gan aelodau bod angen rhagor o bwerau i sicrhau bod y sector breifat yn anrhydeddu hyn er mwyn cymeriad unigryw trefi fel Aberteifi. Awgrymwyd bod Partneriaeth Canol Tref Aberteifi a Masnachwyr Aberteifi yn trafod y mater gan bwysleisio bod grantiau ar gael i gyfieithu unrhyw ddeunydd angenrheidiol.**

**(b) Y Cyng. Mark Cole (*derbyniwyd e-bost in absentia*):**

- (i) **Dywedodd y Cyng. Cole ei fod yn cael anhawster trefnu dyddiad gyda Mrs Wendy Morris yn Aberystwyth er mwyn trefnu cyfarfod i drafod dyfodol y Carnifal am ei bod yn paratoi gadael am Awstralia yn ystod y mis. Mae ef yn awgrymu y dylid trefnu cyfarfod, beth bynnag, i'r rhai sydd â diddordeb. Er mwyn paratoi, awgrymwyd dyddiad tua diwedd Ionawr. Bydd y Cyng. Cole hapus i'r Maer drefnu dyddiad tra bydd ef yn trefnu'r man a'r lle.**

- (ii) Mae'r Cyng. Cole yn bles i gyhoeddi bod y cyngor sir, ar ei gais, yn barod i osod cwrbin isel i fynedfa Bro Teifi i gynorthwyo'r rhai hynny sydd ag anawsterau.

**(c) Y Cyng. John Adams-Lewis:**

- (i) Arwydd Caemorgan: Tua phythefnos yn ôl gosododd yr Awdurdod arwydd dwyieithog ger y fynedfa i Ffordd Caemorgan o'r A487, gan gynghori gyrwyr bod y ffordd yn anaddas i gerbydau hir. Gwnaed hyn mewn ymateb i geisiadau yn dilyn digwyddiad pan adroddwyd bod lori fawr wedi achosi difrod ar rannau uchaf y lôn gul yn 2013. Mae ffermwr ar Ffordd Caemorgan yn awr wedi cysylltu yn adrodd bod lori gymalog yn dod i'w safle bob dydd. Mae'n bryderus iawn y gallai presenoldeb yr arwydd hwn ymyrryd â hyn, ac mae wedi gofyn i'r arwydd gael ei symud. Cytunodd y Cyng. Adams-Lewis barhau i drafod y mater gyda Mr Tom Delph-Janiurek (Uwch Beiriannydd Rheoli Traffig).

**(a) Cllr Catrin Miles:**

- (i) Bron-y-dre pathway: Cllr Miles agreed to discuss with the county council the placing of a handrail to ensure the safety of pedestrians using the path.
- (ii) Councillors Miles and Adams-Lewis attended a meeting recently with the Welsh Language Commissioner. The matter of bilingual signs for shops and commercial properties was discussed; it was stressed that more legislation is required to ensure that the private sector places bilingual signs in order to preserve the uniqueness and character of towns such as Cardigan. It was recommended to request the Cardigan Town Centre Partnership and Cardigan Traders to place the item on their agenda. Grants are available to assist translation, if required.

**(b) Cllr Mark Cole (e-mail received in absentia):**

- (i) Cllr Cole stated that he's been having difficulty getting a date from Mrs Wendy Morris in Aberystwyth to attend a meeting regarding the carnival as she is preparing to leave for a year in Australia this month. Cllr Cole stated that the council should nevertheless proceed with a date for a meeting to bring those interested together. To allow time for publicity, a date in the last week of January is recommended. Cllr Cole is happy for the Mayor to choose a date suitable with his diary and Cllr Cole will then book a venue.
- (ii) Cllr Cole was pleased to report that on his request, having received complaints from local residents, the county council has dropped a curb at the entrance to Bro Teifi to allow greater access to the pavements for those with mobility concerns.

**(c) Cllr John Adams-Lewis:**

- (i) Caemorgan signpost: Approximately two weeks ago the Authority installed a bilingual sign by the entrance to Caemorgan Road from the A487, advising drivers that the road is unsuitable for long vehicles. This was done in response to repeated requests following an incident when a large vehicle was reported to have caused damage on the upper reaches of the lane in 2013. The county council has now been contacted by a farmer on Caemorgan Road who reports that his premises are accessed on a daily basis by an articulated lorry, and is very concerned that the presence of this sign may interfere with deliveries; he has requested that the sign be removed. Cllr Adams-Lewis agreed to discuss the problem with Mr Tom Delph-Janiurek (Senior Engineer Traffic Management).

## 10. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
211	CSC / CCC (William Moore): <i>Ffurflenni Trefniadau'r Praesept 2017-18 Precept Arrangements documents</i>	<i>Nodwyd. Noted.</i>
212	CSC / CCC (Gari Jones): <i>Ardal Teithio Llesol Aberteifi T2425– Cronfa Trafnidiaeth Leol 2017-18: Cais am grant oddi wrth Gyngor Tref Aberteifi.</i> T2425 Cardigan Active Travel Area 0150 Local Transport Fund 2017-18: Application for a grant from Cardigan Town Council.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau. Copy forwarded to members 20/12/16.</i>  <i>I'w drafod yng nghyfarfod y Gyllideb. To be discussed at the Budget meeting.</i>
213	CSC / CCC (Tom Delph-Janiurek): <i>Arwydd Heol Caemorgan / signpost – Cais gan amaethwr lleol i symud yr arwydd.</i> Application by local farmer to remove sign.	<i>Gweler eitem 9(c)(i). See item 9(c)(i)</i>

214	CSC / CCC (Cathryn Morgan): <i>Diweddariad am gais y cyngor am grant Ewropeaidd</i> . Update of the council's application for European funding.	<i>I'w drafod yng nghyfarfod y Gyllideb.</i> To be discussed at the Budget meeting.
215	CSC / CCC (Gaynor Toft): <i>Diweddariad am lanhau baw colomennod o'r Stryd Fawr</i> . Update regarding the pavement fouling by pigeons on the High Street.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 27/12/16. <i>Awgrymwyd bod y cyngor sir yn llythyru holl berchenogion adeiladau Pendre a'r Heol Fawr.</i> It was recommended that the county council circulates all owners of properties in Pendre and the High Street.
216	<i>Llywodraeth Cymru: Swm priodol o dan Adran 137(4)(A) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.</i> Appropriate sum under Section 137(4)(A) of the Local Government Act 1972 = £7.57 per elector.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
217	Hans Feil (Erster Burgermeister) – <i>Maer / Mayor of Laufen</i>	<i>Cyfarchion yr Ŵyl / Christmas greetings</i>
218	Jean-Jacques Faucher ( <i>Maer / Mayor of Brioude</i> )	<i>Cyfarchion yr Ŵyl / Christmas greetings</i>
219	Y Cyng. / Cllr Jane Roche: <i>Cais am grant i blannu coed</i> . Application for the Woodland Trust Community Tree Pack scheme.	<i>Cytunodd y Cyngor bod y Cyng. Roche yn symud ymlaen gyda'r cais. Mae angen sicrhau perchenogaeth y tir gyda'r cyngor sir.</i> It was agreed that Cllr Roche be authorised to continue with the application. Confirmation of ownership of land to be obtained from the county council.
220	Morgan & Davies (Valuers): <i>Adroddiad / Report</i> (Section 119 Charities Act 20121) to accord with the current Charities Act requirement in relation to the ground lease of Cardigan Bowling Club	<i>Mae copïau wedi eu hanfon ymlaen at y canlynol.</i> Copies forwarded to Cllr Clive Davies, John Adams-Lewis, Graham Evans, Catrin Miles, and Mr John Dyer (council solicitor).
221	<i>Sioe Dydd Sadwrn Barlys: Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres i'r cinio blynyddol.</i> Cardigan Barley Saturday Show: Invitation to the Mayor and Mayoress to the annual dinner, Cliff Hotel, 15/1/17, 12.00 noon.	<i>Mae copi wedi ei drosglwyddo i'r Maer.</i> A copy has been forwarded to the Mayor.
222	<i>Cymdeithas Gofal / The Care Society: Cais am gymorth ariannol / Application for financial aid.</i>	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgorau Grantiau mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee. <i>Ffurflen gais wedi ei hanfon.</i> Application form forwarded, 30/12/16.
223	Mr Alex Elsaesser: <i>E-bost yn tynnu sylw'r Cyngor at gyflwr y rhwydau ar y cwrt tennis.</i> E-mail referring to the condition of the tennis court nets.	<i>Y mater i'w drosglwyddo i'r Bachan Deche am ei sylwadau.</i> The issue to be directed to the Handyperson for his observations.
224	<i>Bachan Deche: Adroddiad mis Rhagfyr.</i> Handyperson's December report.	<i>I'w drafod tan eitem 11.</i> To be discussed under item 11.
225	CSC / CCC (Ceredigion Corporate Performance Unit): <i>Ymgynghori ar amcanion llesiant 2017-18.</i> Consultation of the county council's wellbeing objectives 2017-18	<i>Dyddiad cau'r adborth / Consultation to be received by: 10/2/17.</i> <i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 3/1/17.

**Caroline A. Jones:** *Swyddog Perfformiad Corfforaethol a Gwella / Corporate Performance and Improvement Officer*  
**Cathryn Morgan:** *Cydlinydd Teuluoedd yn Gyntaf / Families First Coordinator*  
**Gari Jones:** *Peiriannydd Cynorthwyol Strategaeth Trafnidiaeth / Assistant Engineer Transport Strategy*  
**Gaynor Toft:** *Rheolwr Lles y Gymuned / Community Wellbeing Manager*  
**Tom Delph-Janiurek:** *Rheolwr-Beiriannydd Rheoli Trafnidiaeth / Senior Engineer Traffic Management*  
**William Moore:** *Adain Cyfrifeg / Accountancy Section*

- 11. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.**  
Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.  
**Diolchodd y Maer i'r Cyng. Dai Brabrook am gyfathrebu gyda chwmni Commercial Christmas gan sicrhau bod y goleuadau Nadolig wedi parhau i ddisgleirio eleni.**  
The Mayor thanked Cllr Dai Brabrook for communicating with Commercial Christmas and thereby ensuring that the Christmas lights continued to radiate during the festive season.  
**Partneriaeth Canol Tref Aberteifi: Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 8 Ionawr. Bwriad y pwyllgor yw denu rhagor o bobl i ganol y dref. Mae datblygu app yn benodol i dref Aberteifi ar y gweill a hefyd wi-fi diwifr di-dâl.**  
*Cardigan Town Centre Partnership:* The next meeting will be held on 8 January. The committee will continue to work towards attracting more people to the town centre. The development of a town centre app is continuing and also the provision of a free wireless wi-fi system throughout the town.  
**Castell Aberteifi: Mae'r ymddiriedolwyr yn paratoui cynllun busnes ar gyfer y dyfodol. Mae amserlen o weithgareddau hefyd ar y gweill.**  
*Cardigan Castle:* The trustees are presently preparing a business plan for future expansion. A timetable of events is also under way.  
**Maes Sgrialu: Mae pwyllgor Ffrindiau'r Maes Sgrialu wedi ei sefydlu fel elusen ac maent yn paratoui cais am grantiau i sicrhau'r dyfodol. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 23 Ionawr.**  
*Skateboard Park:* The Skateboard Park Friends committee has been established as a charity and will now make applications for grant funding to secure the future of the amenity. The next meeting will be held on 23 January.  
**Ymddiriedolaeth Dinesig Aberteifi: Cynhelir y cyfarfod nesaf yng Ngorffwysfa'r Pysgotwr ar 31 Ionawr am 6.30yh.**  
*Cardigan Civic Trust:* The next meeting will be held at the Fisherman's Rest on 31 January at 6.30pm.
- 12. Datganiad chwarterol gan y Maer am ddiogelwch cadwyni'r cyngor.**  
Quarterly statement by Mayor regarding safeguarding chains of office.  
**Sicrhaodd y Maer bod y ddwy gadwyn yn ddiogel.**  
The Mayor confirmed that both chains were in safe custody.
- 13. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.**  
Any Other Business at the discretion of the Mayor.

***Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 7.10yh***  
*There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 7.10pm.*

Arwyddwyd/Signed ..... (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date .....